OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### Paratoi achos cyn y gwrandawiad

*Ymholiadau'r Tribiwnlys*

**Methiant i ymateb i ymholiadau a wnaed gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys**

**27.**—(1) Caiff y Llywydd orchymyn—

(a) bod y cais apêl neu'r cais hawlio yn cael ei ddileu ar y sail bod methiant yr apelydd neu'r hawlydd i gydymffurfio ag ymholiadau, a wnaed gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys o dan reoliad 26, yn rhagfarnu neu'n oedi gwrandawiad teg o'r apêl neu'r hawliad;

(b) na chaiff yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol gymryd unrhyw gam pellach yn yr apêl neu'r hawliad na bod yn bresennol yn y gwrandawiad na chael ei gynrychioli yno ar y sail bod methiant yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol i gydymffurfio ag ymholiadau, a wnaed gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys o dan reoliad 26, yn rhagfarnu neu'n oedi gwrandawiad teg o'r apêl neu'r hawliad.

(2) Cyn gwneud gorchymyn o dan baragraff (1), rhaid i'r Llywydd roi hysbysiad i'r parti y bwriada'r Llywydd wneud gorchymyn yn ei erbyn, gan wahodd sylwadau ganddo, a rhaid i'r Llywydd ystyried unrhyw sylwadau a wneir.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) rhaid i hysbysiad sy'n gwahodd sylwadau roi gwybod i'r parti y caiff, o fewn cyfnod (o ddim llai na 5 niwrnod gwaith) a bennir yn yr hysbysiad, naill ai wneud sylwadau ysgrifenedig neu ofyn am gyfle i wneud sylwadau llafar;

(b) bydd sylwadau wedi eu gwneud—

(i) yn achos sylwadau ysgrifenedig, os gwneir hwy o fewn y cyfnod penodedig; a

(ii) yn achos sylwadau llafar, os yw'r parti sy'n bwriadu eu gwneud wedi gofyn am gyfle i wneud hynny o fewn y cyfnod penodedig.

(4) Os dilëir cais apêl neu gais hawlio o dan baragraff (1)(a), ystyrir bod yr achos y mae'r apêl neu'r hawliad yn ymwneud ag ef wedi ei derfynu.